




Diasepam



Alprasolam

# Adroddiad Blynyddol
# 2019 - 2020



# Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| Rhagair | 1 |
| WEDINOS . . . i'ch atgoffa | 1 |
| Ffyrdd Newydd o Gydweithio | 2 |
| Gweithgarwch WEDINOS | 3 |
| Y Cyd-destun | 4 |
| WEDINOS . . . Samplau | 5 |
| Prif Ganfyddiadau: Beth . . . | 6 |
| Lleoliadau Cymunedol . . . | 7 |
| Samplau o'r Gymuned: Beth . . . | 8 |
| Yn y Gymuned: Sut . . . | 9 |
| Economi'r Nos a Gwyliau | 12 |
| Meddyginiaethau ar Bresgripsiwn - Bensodiasepinau a Chyffuriau Z | 13 |

# 1 Rhagair

Mae **WEDINOS** 2.0 yn parhau i fynd o nerth i nerth ac rwyf yn falch o roi gwybod ein bod wedi cofnodi cynnydd o 89 y cant yn 2019/20 yn nifer y samplau a ddadansoddwyd. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb gyfraniad yr holl unigolion, gwasanaethau a sefydliadau sy'n parhau i ddefnyddio a gweld gwerth yn y system, yn ogystal â'r holl asiantaethau hynny sy'n darparu ac yn hyrwyddo cydweithio, cydgymorth ac arloesi.

Drwy gydol y flwyddyn hon, mae'r cynnydd yn argaeledd meddyginiaethau presgripsiwn, rhai dilys a rhai ffug, a'r cynnydd yn y defnydd ohonynt, yn parhau i beri pryder, yn enwedig o ystyried ystod y grwpiau oedran, eu hygyrchedd a lefel yr amnewid. Fel y bydd yr adroddiad hwn yn dangos, roedd 42 y cant o'r samplau a gyflwynwyd gyda datganiad am y bwriad wrth eu prynu yn cynnwys sylweddau heblaw'r rhai disgwyliedig, felly roedd unigolion yn wynebu her gynyddol wrth geisio lleihau'r niwed iddyn nhw eu hunain ac i eraill, fel yr oedd y gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cysylltiedig wrth geisio ymateb.

Ar adeg cwblhau'r adroddiad hwn, datganwyd y pandemig COVID-19 sydd yn parhau o hyd. Ni fydd modd gwybod am gryn amser eto beth fydd holl effeithiau'r pandemig ar farchnadoedd cyffuriau lleol a byd-eang na'r goblygiadau i'r rheini sy'n defnyddio sylweddau, ond mae briffiadau ymchwil defnyddiol a ddarparwyd gan Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar gyfer Rheoli Cyffuriau (https://www.unodc.org/documents/data-and-analysis/covid/Covid-19-and-drug-supply-chain-Mai2020.pdf) ac EMCDDA (https://www.emcdda.europa.eu/publications/topic-overviews/catalogue/covid-19-and-people-whouse-drugs) yn cynnig mewnwelediadau diddorol.

Mae **WEDINOS** wedi parhau i weithredu ac, ar adeg ysgrifennu hyn, ef yw'r unig wasanaeth gwirio cyffuriau sydd ar waith yn Ewrop, fel ei fod yn cyflawni rôl bwysicach byth wrth ddarparu proffiliau cyffuriau, tystiolaeth o dueddiadau daearyddol a chyngor i leihau niwed. Diolch eto i bawb sy'n cefnogi ac yn cyfrannu.

# WEDINOS . . . i'ch atgoffa

Mae **WEDINOS** yn cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a chafodd ei lansio yn Hydref 2013 fel cydweithrediad rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru, Labordai Tocsicoleg Caerdydd yn Ysbyty Athrofaol Llandochau (BIP Caerdydd a'r Fro) a'r Ysgol Fferylliaeth ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n cael cymorth gan Lywodraeth Cymru.

Mae **WEDINOS** yn darparu fframwaith ar gyfer casglu a phrofi samplau o sylweddau seicoweithredol a chyfuniadau o gyffuriau (a elwir yn "samplau" o hyn ymlaen) ynghyd â gwybodaeth am y symptomau disgwyliedig ac annisgwyl a brofwyd gan ddefnyddwyr. Drwy goladu'r canfyddiadau hyn yn ogystal ag adnabod strwythur cemegol y samplau, gellir lledaenu gwybodaeth bragmatig sy'n seiliedig ar dystiolaeth i leihau'r niwed a brofir gan y rheini sy'n defnyddio cyffuriau seicoweithredol neu'n ystyried eu defnyddio.

Ymhlith yr offer dadansoddi a ddefnyddir i broffilio samplau mae sbectromedr màs Quadrupole Time of Flight (Q-ToF) (y prif offeryn dadansoddi), sbectromedr Fourier-Transform Infrared (FTIR), sbectrosgopeg Cyseiniant Magnetig Niwclear (NMR), Cromatograffaeth Nwy–Sbectrometreg Màs (GC-MS) a Chromatograffaeth Hylif–Sbectrometreg Màs (LC-MS).


# 2 Ffyrdd Newydd o Gydweithio

Ers lansio'r prosiect, mae **WEDINOS** wedi cydweithio a rhannu gwybodaeth â gwahanol fathau o randdeiliaid a chydweithwyr ar lefel leol ac ar lefel y DU ac Ewrop, yn cynnwys UK Focal Point, y Tîm Asesu ac Ymateb i Niwed Cyffuriau, a Chanolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop.

Ym mis Gorffennaf 2019, derbyniodd **WEDINOS** wahoddiad i gymryd rhan yng ngwaith casglu data a dadansoddi'r prosiect Gwybodaeth Gyffuriau Drawsewropeaidd (TEDI) a chyfrannu i'w gyhoeddiadau yn y dyfodol. Mae TEDI yn rhwydwaith o wasanaethau sy'n gwirio cyffuriau drwy waith maes yn Ewrop, mewn 14 o wledydd, ac yn rhannu eu data a'u harbenigedd drwy system monitro a gwybodaeth Ewropeaidd.

Yn ystod 2011, datblygodd TEDI system gronfa ddata sy'n casglu, yn monitro ac yn dadansoddi'r gwahanol dueddiadau sy'n datblygu yn y defnydd o gyffuriau mewn lleoliadau hamdden yn Ewrop. Nod y system monitro a gwybodaeth hon yw helpu i wella iechyd cyhoeddus a strategaethau/rhaglenni ymyrryd ar gyfer atal a lleihau niwed. Mae'n gweithio fel system rhybudd cynnar ac fel cyfrwng i fonitro datblygiad y marchnadoedd cyffuriau hamdden yn Ewrop.

Mae'r cydweithwyr a gwledydd eraill wedi'u dangos ym map rhwydwaith TEDI:




# 3 Gweithgarwch WEDINOS

**Cyfanswm y Samplau hyd yn hyn:**
- 15,847 o samplau wedi'u derbyn
- 13,329 wedi'u dadansoddi
- 436 o sylweddau wedi'u hadnabod un ai ar wahân neu mewn cyfuniad.
- 198 o wahanol sefydliadau, gwasanaethau a lleoliadau economi'r nos (biniau amnest mewn clybiau nos) ledled y DU.

**Cyfanswm y Samplau y Flwyddyn Hon:**
- 4,880 o samplau wedi'u derbyn, 79 y cant yn fwy nag yn 2018/19
- 4,045 wedi'u dadansoddi, 89 y cant **YN FWY**
- 170 o sylweddau wedi'u hadnabod, 17 y cant **YN FWY**
- 89 o wahanol sefydliadau, gwasanaethau a lleoliadau economi'r nos ledled y DU, 16 y cant **YN FWY**
- Oed canolrifol darparwyr y samplau: 32 mlwydd oed (amrediad o 12 i 80 mlwydd oed)
- Fel yr oedd yn y ddwy flynedd blaenorol, bensodiasepinau oedd y dosbarth o sylweddau seico weithredol a nodwyd amlaf.
- Fel yr oedd mewn blynyddoedd blaenorol, cocên oedd y sylwedd a nodwyd amlaf yn yr holl samplau:
- Y sylwedd a nodwyd amlaf yn y gymuned oedd diasepam, ac wedyn cocên
- Economi'r nos – cocên, ac wedyn MDMA
- Lleoliadau cyfiawnder troseddol – nicotin, ac wedyn bwprenorffin a 4F-MDMB-BINACA

**Ffigur 1: Gweithgarwch WEDINOS hyd yn hyn ac yn y flwyddyn ddiwethaf 2019/20**



# Y Cyd-destun

Amcangyfrifon ar lefel y byd, Ewrop, Cymru a Lloegr, a Chymru:

Mae Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throseddu (UNODC) wedi amcangyfrif, ar gyfer 2017, fod 271 miliwn o bobl y byd, neu 5.5 y cant o'r boblogaeth fyd-eang rhwng 15 a 64 oed wedi defnyddio cyffuriau yn y flwyddyn flaenorol. Yn ogystal â hyn, roedd tua 35 miliwn o bobl yn profi anhwylder camddefnyddio sylweddau yr oedd angen ei drin gan wasanaethau. Yn 2017, bu farw 585,000 o bobl o ganlyniad i ddefnyddio cyffuriau. Roedd mwy na hanner y marwolaethau hynny'n ganlyniad i hepatitis C a oedd heb ei drin ac wedi arwain at ganser yr iau a sirosis; priodolwyd bron traean ohonynt i anhwylderau defnyddio cyffuriau. Roedd y rhan fwyaf (dwy ran o dair) o'r marwolaethau a briodolwyd i anhwylderau defnyddio cyffuriau yn gysylltiedig â'r defnydd o opioidau1.

Mae Canolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop wedi nodi bod tua 96 miliwn o bobl, neu 29 y cant o boblogaeth yr Undeb Ewropeaidd rhwng 15 a 64 oed, wedi cymryd cyffuriau anghyfreithlon yn ystod eu hoes[2].

Mae Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2018/19 yn nodi bod 9.4 y cant o oedolion rhwng 16 a 59 oed wedi cymryd cyffur yn y flwyddyn ddiwethaf, sydd ychydig yn fwy na'r 9 y cant a gofnodwyd yn 2017/18. Mae hyn yn cyfateb i tua 3.2 miliwn o bobl neu 1 ym mhob 11 o'r oedolion rhwng 16 a 59 oed. Ymysg rhai 16 i 24 blwydd oed, roedd 20.3 y cant wedi rhoi gwybod iddynt gymryd cyffur yn y flwyddyn ddiwethaf, sy'n gynnydd o'r 19.8 y cant yn y flwyddyn flaenorol, sef tua 1 ym mhob 5.

Am y tro cyntaf yn 2017/18, roedd Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr wedi cofnodi data sy'n ymwneud â'r defnydd o gyffuriau gan oedolion 60 i 74 oed. Yn 2018/19, roedd 1.1 y cant o'r boblogaeth hon wedi dweud iddynt ddefnyddio cyffuriau yn y flwyddyn ddiwethaf; y ffigur yn 2018/19 oedd 1 y cant[3].

Mae'r prif ffigurau dros dro o'r amcangyfrifon o ddefnydd problemus o gyffuriau * yng Nghymru, sy'n cynnwys poblogaethau sydd heb gysylltiad ag unrhyw wasanaethau, yn awgrymu mai cyfanswm y defnyddwyr cyffuriau problemus yn 2017-18 oed 52,600 (cyfwng hyder o 95%, 45,230 – 65,050).

**Niwed o Ddefnyddio Sylweddau**

Yng Nghymru, cafwyd cynnydd o 4.4 y cant yng nghyfanswm y derbyniadau i'r ysbyty o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon a enwyd, o 6,488 yn 2017-18 i 6,786 yn 2018-19. O'i gymharu â 2014-15, cafwyd cynnydd o 17.2 y cant yn nifer y derbyniadau o ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau anghyfreithlon.

Yn 2018, cofrestrwyd 327 o farwolaethau a oedd yn ganlyniad i wenwyno gan gyffuriau yng Nghymru, cynnydd o 25.8 y cant o'i gymharu â'r flwyddyn galendr flaenorol. O'r holl farwolaethau o wenwyno gan gyffuriau, nodwyd bod 208 (63.6 y cant) yn farwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau, cynnydd o 12.4 y cant o'i gymharu â'r 185 o farwolaethau yn 2017. Y nifer o farwolaethau o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau a nifer yr achosion eraill o wenwyno gan gyffuriau yw'r rhai uchaf a gofnodwyd dros y 10 mlynedd diwethaf[4].

1. World Drug Report 2019 (United Nations publication, Sales No. E.19.XI.8). https://wdr.unodc.org/wdr2019/ (accessed 7th April 2020).
2. European Monitoring Centre for Drugs and Drug Addiction (2019), European Drug Report 2019: Trends and Developments, Publications Office of the European Union, Luxembourg. http://www.emcdda.europa.eu/system/files/publitions/11364/20191724_TDAT19001ENN_PDF.pdf (accessed 28/04/20).
3. Drugs Misuse: Findings from the 2018/19 Crime Survey for England and Wales, Statistical Bulletin: 21/19, Home Office (2019), https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/832533/drug-misuse-2019-hosb2119.pdf (accessed 28/04/20).
*Yn y cyd-destun hwn, y diffiniad o ddefnydd problemus o gyffuriau gan Ganolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop (EMCDDA) yw "defnyddio cyffuriau drwy chwistrellu neu ddefnydd rheolaidd neu dros gyfnod hir o opioidau, cocên a/neu amffetaminau (yn cynnwys sylweddau o'r un math ag amffetaminau)".
4. Turner, D., Smith, J., Data mining Wales: The annual profile for substance misuse 2018-19, Public Health Wales, Cardiff. http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/docments/888/-Final%20Annual%20Profile%202018-19%20ENGLISH.pdf (accessed 28/04/20).


# WEDINOS . . . Samplau

Mae **WEDINOS** wedi derbyn a dadansoddi cyfanswm o 4,045 o samplau a gafwyd gan 89 o wasanaethau a lleoliadau ledled y DU, a hefyd gan unigolion. Gellir rhannu'r samplau hyn yn dri chategori cyffredinol:

- Y Gymuned
- Economi'r Nos (Tafarndai a Chlybiau Nos) a Gwyliau
- Lleoliadau Cyfiawnder Troseddol

Ni chyflwynir unrhyw wybodaeth am y bwriad wrth brynu, yr effeithiau na demograffeg gyda samplau o finiau amnest Economi'r Nos, na'r samplau o Leoliadau Cyfiawnder Troseddol os yw'r samplau wedi'u darganfod a heb eu priodoli.

**Ffynonellau'r Samplau**




**4,045**
**o samplau gan**
**89**
**o wasanaethau**

# Prif Ganfyddiadau: Beth . . .

**Y sylweddau a nodir amlaf – Yr holl samplau**

Y grŵp cemegol o sylweddau seicoweithredol a nodwyd amlaf oedd bensodiasepinau, am y drydedd flwyddyn yn olynol. Canfuwyd cyfanswm o 13 o bensodiasepinau yn 2019/20, o'i gymharu ag 11 y flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, o'r rhain, roedd pedwar wedi'u nodi ar un achlysur yn unig, a saith pellach ar lai na 10 achlysur.

Yn yr un modd â chanfyddiadau'r ddwy flynedd blaenorol, diasepam oedd y bensodiasepin a nodwyd amlaf, wedyn etisolam. Fodd bynnag, roedd alprasolam (a elwir yn Xanax gan lawer) wedi disgyn i'r pedwerydd safle, wedi'i ddisodli gan fflwalprasolam. Mae fflwalprasolam yn cael ei weld amlaf fel amnewidyn i alprasolam, ac yn fwyfwy aml fel amnewidyn i diasepam. Mae hyn yn creu risg ddichonol i unigolion sy'n defnyddio bensodiasepinau gan fod eu dosau a'u cryfder yn amrywio'n fawr iawn.

Cocên oedd y sylwedd seicoweithredol a nodwyd amlaf gan **WEDINOS**.

Mae Canolfan Monitro Cyffuriau a Chaethiwed i Gyffuriau Ewrop wedi dweud bod y farchnad cocên yn Ewrop yn parhau i dyfu, a bod nifer yr atafaeliadau a'r meintiau a atafaelir ar eu mwyaf erioed. Mae tystiolaeth bellach o hyn yn y cynnydd yn argaeledd cocên, a chafwyd adroddiadau bod yr amcangyfrifon o burdeb cocên ar eu huchaf mewn degawd ar y lefel manwerthu.

Yn Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2018/19, cofnodwyd bod y defnydd o gocên yn y flwyddyn ddiwethaf ymysg oedolion 16 i 59 oed wedi cynyddu o 2.1 y cant yn yr arolwg cyfatebol yn 2011/12 i 2.9 y cant yn 2018/19. Y ffigurau cyfatebol ar gyfer rhai 16 i 24 oed oedd 4.1 y cant a 6.2 y cant.

Roedd nifer y marwolaethau yng Nghymru a Lloegr lle'r oedd cocên wedi'i grybwyll wedi dyblu bron rhwng 2015 a 2018; roedd 637 o farwolaethau yn gysylltiedig â chocên yn 2018, o'i gymharu â 320 yn 2015.

Yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, caffein oedd y cyfrwng llenwi/torri mwyaf cyffredin a nodwyd. Fodd bynnag, yn ogystal â'i gael mewn cyfuniad â sylweddau eraill, cafwyd bod nifer o samplau o bowdrau a thabledi yn cynnwys caffein ar wahân.

**Tabl 1: Y sylweddau seicoweithredol a nodwyd amlaf yn samplau WEDINOS.**

| | 2019/20 | 2018/19 |
|---|---|---|
| 1 | Cocên | Cocên |
| 2 | MDMA | MDMA |
| 3 | Diasepam | Cetamin |
| 4 | Cetamin | Caffein |
| 5 | Etisolam | Diasepam |
| 6 | Caffein | 5F-ADB |
| 7 | 4F-MDMB-BINACA | Etisolam |
| 8 | Canabis | Alprasolam |
| 9 | Fflwalprasolam | Canabis |
| 10 | Alprasolam | Amffetamin |

Fel y nodwyd eisoes, mae **WEDINOS** yn cael samplau o lawer o wahanol fathau o leoliadau yn y gymuned. Mae **WEDINOS** yn cydweithio'n agos â heddluoedd Cymru mewn perthynas ag Economi'r Nos, a'r chwe charchar yng Nghymru, ac yn adrodd ar wahân ar ddarganfyddiadau sydd heb werth fel tystiolaeth. Yn y ddwy adran nesaf yn yr adroddiad hwn, rydym yn canolbwyntio ar samplau o leoliadau yn y gymuned ac o Economi'r Nos a gwyliau.

# Lleoliadau Cymunedol . . .

**Y sylweddau a nodwyd amlaf – Yr holl samplau**


**Cyflwynwyd 2,291 o samplau o leoliadau cymunedol, yn cynnwys rhai cysylltiedig ag addysg, iechyd (yn cynnwys Adrannau Achosion Brys), iechyd meddwl, tai a digartrefedd, gwasanaethau camddefnyddio sylweddau ac unigolion.**

O'r 2,291 o samplau hyn, roedd gwybodaeth ddemograffig ar gael ar gyfer 89 y cant ohonynt (n=2,030). Cyflwynwyd 82 y cant o'r samplau gan wrywod a 18 y cant gan fenywod. Roedd hyn yn cymharu â 79 y cant o wrywod a 21 y cant o fenywod yn 2018-2019.

Oed canolrifol darparwyr y samplau o sylweddau seicoweithredol yng Nghymru ac yn y DU oedd 32 mlwydd, mewn amrediad rhwng 12 a 80 mlwydd oed, sy'n fwy na'r amrediad o 13 i 74 blwydd oed yn 2018-2019.

· Benywod – yr oed canolrifol oedd 35 mlwydd (32 mlwydd yn 2018-2019) (amrediad: 14-75 mlwydd)
· Gwrywod - yr oed canolrifol oedd 31 mlwydd (amrediad: 12-80 mlwydd).

**Siart 1: Proffil darparwyr y samplau o sylweddau seicoweithredol**




**Roedd y samplau a gyflwynwyd gan unigolion yn yr amrediad oed 0-17 flwydd yn cynnwys y canlynol, yn nhrefn niferoedd, ymysg sylweddau eraill: MDMA, 4F-MDMB-BINACA, canabis, cetamin a'r bensodi-asepinau diclasepam a fflwalprasolam (y cyfan wedi'i brynu o dan yr enw alprasolam).**

**Ymysg oedolion 60 mlwydd oed ac yn hŷn, cafwyd samplau a oedd yn cynnwys diasepam, etisolam, canabis, sopiclon, bwprenorffin, amffetamin a 2C-B.**

# Samplau o'r Gymuned: Beth . . .

Ers lansio **WEDINOS** yn 2013, mae'r prosiect wedi gweld tystiolaeth yn gyson o amnewid sylweddau ym marchnad cyffuriau anghyfreithlon y DU. Mae Tabl 2 yn dangos y newidiadau yn y deg sylwedd mwyaf cyffredin ar y cam cyflwyno (bwriad wrth brynu) ac ar ôl dadansoddi.

Mae samplau a gofnodwyd yn rhai 'anhysbys' yn cynnwys y rheini a gyflwynwyd o dan enw nad oedd yn caniatáu adnabod y sylwedd neu gategori sylweddau, samplau y cafwyd hyd iddynt neu sylweddau anhysbys, er enghraifft, samplau a gyflwynwyd gan staff gofal iechyd a gafwyd gan gleifion a oedd yn profi effeithiau acíwt mewn adran achosion brys neu uned iechyd meddwl.

**Tabl 2: Y sylweddau mwyaf cyffredin cyn (canfyddedig) ac ar ôl (gwirioneddol) dadansoddi**


| Rhif | Bwriad wrth brynu yn y gymuned | Samplau o'r gymuned ar ôl dadansoddi |
|---|---|---|
| 1 | Diasepam | Diasepam |
| 2 | Anhysbys | Cocên |
| 3 | Alprasolam | Etisolam |
| 4 | Cocên | MDMA |
| 5 | MDMA | Caffein |
| 6 | Cetamin | Fflwalprasolam |
| 7 | Amffetamin | Alprasolam |
| 8 | SCRA | Cetamin |
| 9 | Sopiclone | Canabis |
| 10 | Canabis | Amffetamin |

**42%**
**o'r samplau a gyflwynwyd heb gynnwys y sylwedd disgwyliedig**

Fel mae'r siart yn dangos, mae nifer o wahaniaethau rhwng y rhestrau cyn ac ar ôl dadansoddi. Nid yw etisolam na fflwalprasolam ar y rhestr cyn dadansoddi. Er hynny, maent yn drydydd ac yn chweched yn y rhestr o sylweddau a nodwyd amlaf. Mewn gwirionedd, dim ond 25 o weithiau y gwelwyd y ddau sylwedd hyn yn y rhestr o sylweddau y bwriadwyd eu prynu cyn eu dadansoddi. Ar ôl dadansoddi'r samplau, nodwyd y sylweddau hyn 359 o weithiau i gyd.

Gellid dadlau mai'r nifer mawr o sylweddau "anhysbys" cyn dadansoddi yw'r dylanwad mwyaf ar y gwahaniaeth hwn. Fodd bynnag, hyd yn oed ar ôl tynnu'r samplau hyn, cawn fod 42% o'r samplau a gyflwynwyd i **WEDINOS** yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn cynnwys sylwedd a oedd yn wahanol i'r disgwyl lle'r oedd bwriad wrth brynu wedi'i nodi. Cafwyd bod rhai samplau'n cynnwys y sylwedd y bwriadwyd ei brynu ynghyd â sylweddau eraill; er enghraifft, sampl a brynwyd fel MDMA, y cafwyd ar ôl dadansoddi ei bod yn cynnwys MDMA a 2C-B. Cafwyd bod samplau eraill yn cynnwys sylwedd neu sylweddau gwahanol; er enghraifft, sampl a brynwyd fel alprasolam, y cafwyd ei bod yn cynnwys fflwalprasolam ac etisolam. Mae lefelau'r sylweddau ychwanegol ac amnewidion wedi'u dangos yn Siart 2.

**Siart 2: Cynnwys samplau – Ar ôl dadansoddi**




# Yn y Gymuned: Sut . . .

**Ffurf y sampl**

Mae **WEDINOS** yn holi am ffurf pob sampl a gyflwynir er mwyn monitro ac adrodd ar wahanol ffurfiau'r sylweddau sydd ar y farchnad a gwahaniaethau posibl yn y dull o'u defnyddio.

**Siart 3: Ffurf y samplau o sylweddau seicoweithredol**

**Ffurf – Samplau o'r gymuned 2019-2020**





| | 2019-2020 | 2018-2019 |
|---|---|---|
| Tabled | 47% | 41% |
| Powdr | 25% | 27% |
| Grisialaidd | 9% | 4% |
| Llysieuol | 7% | 15% |
| Hylif | 4% | 3% |
| Capsiwl | 4% | 2% |
| Solet | 2% | 4% |
| Papur sugno | 1% | 3% |

Y flwyddyn hon, gwelsom gynnydd yng nghyfran y tabledi, ynghyd â chynnydd yng nghyfran y sylweddau grisialaidd a gostyngiad yng nghyfran y sylweddau llysieuol.

**Y Dull o'u Defnyddio a Chyngor i Leihau Niwed**

Gan gymryd bod yr holl samplau o sylwedd llysieuol yn cael eu hysmygu, roedd gweddill y samplau (pils, hylif, tabledi, gronynnau etc) yn cael eu cymryd i mewn i'r corff drwy wahanol ddulliau. Y mwyaf cyffredin, ar 69 y cant, oedd eu cymryd drwy'r geg (llyncu, bomio) wedyn ffroeni / sniffian ar 23 y cant, fel y mae Siart 4 yn dangos. Mae hyn yn gyson â blynyddoedd blaenorol.

**Siart 4: Dull Defnyddio (heb gynnwys sylweddau llysieuol)**




Rhoddwyd gwybod bod 2 y cant o'r samplau yn cael eu cymryd drwy chwistrellu mewnwythiennol.

Mae chwistrellu cyffuriau yn creu risgiau o gael heintiad bacterol neu feirysol ar ben y risgiau o natur wenwynig y sylwedd a chwistrellir.

Roedd y samplau o sylweddau i'w chwistrellu yn cynnwys heroin yn bennaf, wedyn amffetamin. Roedd samplau eraill yn cynnwys cocên (a brynwyd fel crac cocên), diasepam, methamffetamin ac un sampl o ffentanyl (a brynwyd fel China White)

Mae pob math o chwistrellu, beth bynnag yw'r sylwedd, yn creu risg sylweddol o gael heintiad difrifol ac o wynebu goblygiadau eraill. Mae'n bwysig bod unigolion sy'n chwistrellu cyffuriau ar hyn o bryd, neu sydd wedi gwneud hynny o'r blaen, yn cael prawf am feirysau sy'n cael eu cario yn y gwaed.






I gael rhagor o wybodaeth am leihau niwed, ewch i:
http://www.wedinos.org/harm_reduction_advice.html

O ran y dull o gymryd powdrau a sylweddau grisialaidd, y dull mwyaf cyffredin oedd ffroeni/sniffian. Rhoddwyd gwybod am hyn yn achos 63 y cant o'r samplau, fel y mae Siart 5 yn dangos. Mae hyn yn cymharu â 56 y cant yn 2018-2019.

Mae ffroeni/sniffian sylweddau a all fod yn ysol neu'n wenwynig yn creu risgiau ychwanegol sy'n ymwneud â niwed i lwybrau anadlu'r trwyn yn ogystal â'r posibilrwydd o drosglwyddo heintiau feirysol yn y gwaed wrth rannu cyfarpar ffroeni lle mae llwybrau'r trwyn wedi'u niweidio a gwaed yn bresennol. Fel y nodwyd o'r blaen, mae pob dull o chwistrellu sylweddau yn destun pryder ac yn creu'r risg o gymryd heintiad bacterol i mewn i'r corff.

**Siart 5: Dull Defnyddio – Powdrau a Sylweddau Grisialaidd**



# Economi'r Nos a Gwyliau


Gan barhau â'r gwaith a gychwynnwyd yn 2018-2019, mae **WEDINOS** wedi cryfhau'r bartneriaeth rhwng y rhaglen a heddluoedd Cymru a gwasanaethau lles gwyliau. Mae wedi derbyn a dadansoddi 1,048 o samplau a gafwyd yn y biniau amnest mewn clybiau nos a gwyliau. Mae hyn yn gynnydd o 209 y cant ar y 339 o samplau a gafodd eu derbyn a'u dadansoddi yn 2018-2019.

Er nad oes data ar gael gyda'r samplau hyn am ddemograffeg, y bwriad wrth brynu na'r effeithiau, mae canlyniadau'r dadansoddi yn rhoi mewnwelediad i'r mathau o sylweddau sy'n cylchredeg yn economi'r nos ac mewn gwyliau.

Yn y 1,048 o samplau, nodwyd 46 o sylweddau, saith ohonynt yn gyfryngau llenwi neu'n fetabolion o un o'r prif sylweddau seicoweithredol. Nid oedd cyfansoddyn actif mewn pedair o'r samplau.

Y sylweddau a nodwyd amlaf yn nhrefn nifer oedd cocên, MDMA a cetamin. Heblaw symbylyddion a chyffuriau rhithbair eraill fel cathinonau a sylweddau yn y grŵp 2C, roedd canabis, bensodiasepinau a gweithyddion derbynyddion canabinoid synthetig wedi'u nodi hefyd. Roedd 85 y cant o'r samplau a gafwyd o economi'r nos a gwyliau yn bowdrau, ac wedyn 8 y cant ar ffurf tabledi. Mae hyn yn hollol groes i'r hyn a welwyd mewn samplau a gyflwynwyd o'r gymuned lle'r oedd y gyfran fwyaf yn dabledi (45 y cant), ac wedyn yn bowdrau (25 y cant).

**Siart 6: Ffurfiau'r Samplau o Economi'r Nos**




Cocên oedd y sylwedd a nodwyd amlaf ar ffurf powdwr, ac wedyn cetamin ac MDMA. Sylweddau eraill a nodwyd ar ffurf powdrau oedd: amffetamin, meffedron, methampethamin, BZP, caffein, parasetamol, alprasolam , fflwalprasolam a bwprenorffin. .

# Meddyginiaethau ar Bresgripsiwn – Bensodiasepinau a Chyffuriau Z

Mae'r camddefnydd o feddyginiaethau ar bresgripsiwn a meddyginiaethau a brynir dros y cownter wedi dod yn bwnc pwysig ym maes iechyd cyhoeddus yn y blynyddoedd diwethaf[5].


Yn Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr 2018/19, amcangyfrifwyd bod 6.4 y cant o oedolion rhwng 16 a 59 oed wedi cymryd cyffur lladd poen sydd ar gael ar bresgripsiwn yn unig am "resymau meddygol" yn y flwyddyn ddiwethaf a dywedodd 0.2 y cant o ymatebwyr ychwanegol eu bod wedi cymryd cyffur lladd poen sydd ar gael ar bresgripsiwn yn unig dim ond i gael y teimlad neu brofiad yr oedd yn ei roi iddynt[6].

Derbynnir cleifion yn aml i adrannau achosion brys mewn cysylltiad â defnydd anfeddygol o bensodiasepinau a/neu gyffuriau Z[7]. Mae Rhwydwaith Achosion Cyffuriau Brys Ewrop (Euro-DEN Plus) yn monitro nifer y cleifion a dderbynnir mewn cysylltiad â gwenwyno acíwt gan gyffuriau i 26 o ysbytai mewn rhwydwaith arolygu mewn 18 o wledydd yn Ewrop. Yn 2017, roedd yr ysbytai wedi cofnodi 7,267 o dderbyniadau. Roedd bron chwarter y derbyniadau'n ymwneud â chamddefnydd o gyffuriau ar bresgripsiwn a chyffuriau a brynwyd dros y cownter (bensodiasepinau ac opioidau yn bennaf)[8].

Yng Nghymru yn 2018-19, derbyniwyd 889 o achosion a oedd yn ymwneud â bensodiasepinau mewn cysylltiad â 772 o unigolion. Y gyfradd wedi'i safoni yn ôl oedran yn Ewrop oedd 29.7 o dderbyniadau ym mhob 100,000 o'r boblogaeth[9].

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n ymddangos bod cynnydd yn nifer, math ac argaeledd y sylweddau seicoweithredol newydd sy'n perthyn i ddosbarth y bensodiasepinau, nad ydynt yn cael eu rheoli o dan gyfreithiau rheoli cyffuriau rhyngwladol. Mae rhai ohonynt yn cael eu gwerthu fel fersiynau ffug o feddyginiaethau sy'n cael eu rhagnodi'n aml ar gyfer gorbryder fel alprasolam a diasepam, drwy ddefnyddio'r rhwydweithiau dosbarthu presennol yn y farchnad cyffuriau anghyfreithlon. Gwerthir eraill ar-lein, o dan eu henwau eu hunain weithiau, a'u marchnata fel fersiynau 'cyfreithlon' o feddyginiaethau awdurdodedig[10].

**Chart 7.**




5. Roberts, H, Research Briefing: Misuse of prescription and over-the-counter medications, Welsh Government (2016) https://www.assembly.wales/research%20documents/16-039%2016-039%20-%20addication%20to%20over%20the%20counter%20prescriptions/16-039-web-english.pdf (accessed 28/04/20).
6. Drugs Misuse: Findings from the 2018/19 Crime Survey for England and Wales, Statistical Bulletin: 21/19, Home Office (2019), https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/832533/drug-misuse-2019-hosb2119.pdf (accessed 28/04/20).
7. Lyphout, C..., Yates, C., Margolin, Z. et al. Presentations to the emergency department with non-medical use of benzodiazepines and Z-drugs: profiling and relation to sales data. Eur J Clin Pharmacol 75, 77–85 (2019). https://doi.org/10.1007/s00228-018-2550-1 .
8. European Monitoring Centre for Drugs and Drug Addiction (2019), European Drug Report 2019: Trends and Developments, Publications Office of the European Union, Luxembourg. http://www.emcdda.europa.eu/system/files/publications/11364/20191724_TDAT19001ENN_PDF.pdf (accessed 28/04/20).
9. Turner, D., Smith, J., Data mining Wales: The annual profile for substance misuse 2018-19, Public Health Wales, Cardiff. http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/Final%20Annual%20Profile%202018-19%20ENGLISH.pdf (accessed 28/04/20).
10. World Drug Report 2019 (United Nations publication, Sales No. E.19.XI.8). https://wdr.unodc.org/wdr2019/prelaunch/WDR19_Booklet_1_EXECUTIVE_SUMMARY.pdf (accessed 28/04/20).

O'r 2,291 o samplau o leoliadau cymunedol a gyflwynwyd i **WEDINOS** yn 2019-2020, roedd 41 y cant (n=945) wedi'u cyflwyno gan gredu eu bod yn feddyginiaethau neu'n ddeilliadau, yn bensodiasepinau labordy newydd, er enghraifft. O'r 945 o samplau hynny, roedd cyfran fawr o 90 y cant (n=846) wedi'u cyflwyno gan gredu eu bod yn bensodiasepinau neu'n gyffuriau Z.

Mae nifer y samplau a gyflwynwyd gan gredu eu bod yn bensodiasepinau neu'n gyffuriau Z ym mhob chwarter blwyddyn wedi'i ddangos yn Siart 7, ynghyd â chyfanswm y samplau a gafwyd.

Sopiclon a solpidem oedd y cyffuriau Z a gofnodwyd amlaf, yn ôl y bwriad wrth brynu. Diasepam ac alprasolam oedd y bensodiasepinau a gofnodwyd amlaf.

Nid yw alprasolam ar gael gan y GIG, ond gellir ei gael ar bresgripsiwn preifat yn y DU. Gellir prynu alprasolam, ar ffurf tabledi Xanax ffug fel arfer, mewn marchnadoedd cyffuriau ar lefel y stryd ac mae ar gael i'w brynu hefyd o wefannau anghyfreithlon a thrwy apiau cyfryngau cymdeithasol[11].

Mae mecanwaith gweithredu alprasolam yn debyg i'r un sydd gan diasepam ond mae tua 10–20 gwaith yn gryfach. Nodwyd ei fod yn fwy tueddol i gael ei ddefnyddio at ddibenion anfeddygol, ei fod yn achosi symptomau diddyfnu mwy difrifol a'i fod yn fwy gwenwynig os cymerir gorddos na bensodiasepinau eraill[12].


Mae llawer o'r tabledi alprasolam sydd ar gael ar farchnadoedd anghyfreithlon yn rhai sy'n is na'r safon fferyllol, ac yn rhai ffug. Mae hyn yn destun pryder mawr gan ei bod yn bosibl y bydd cynhyrchion ffug o'r fath yn cynnwys meintiau amrywiol iawn o alprasolam, fel y bydd yn anodd i bobl benderfynu faint i'w gymryd. Dangoswyd hefyd fod Xanax ffug weithiau'n cynnwys cyffuriau eraill a/neu ddifwynwyr a all fod yn beryglus[7].

Nid am alprasolam yn unig y mae hyn yn wir gan fod fferyllfeydd ar-lein yn dod yn fwy cyffredin. Er bod rhai fferyllfeydd o'r fath yn gyfreithlon, mae eraill sydd heb fod yn gyfreithlon ac a allai fod yn ffug neu'n rhai sy'n darparu cyffuriau o ffynonellau amheus, cyffuriau o fath annelwig, neu ddosau anghyson[13].


Mae'r canlyniadau o brofion ar samplau a gyflwynwyd i **WEDINOS** yn cadarnhau'r datganiadau hyn, mewn cysylltiad ag alprasolam yn ogystal â diasepam, er na allwn wneud sylwadau am union ffynonellau'r sylweddau hyn.


**Amnewidion ymysg meddyginiaethau ar bresgripsiwn:**

Mae'r ffeithluniau isod yn dangoss lefelau'r amnewid ac amnewidion cyffredin a nodwyd mewn samplau a gyflwynwyd i **WEDINOS** fel diasepam, alprasolam a chyffuriau Z (sopiclon a solpidem yn benodol)s




11. O'Connor R. Public Health England. Alprazolam (Xanax): What are the facts? https://publichealthmatters.blog.gov.uk/2018/07/30/alprazolam-xanax-what-are-the-facts.
12. Hockenhull, J, Amioka, E, Black, JC, et al. Nonmedical use of alprazolam in the UK: Results from a nationally representative survey. Br J Clin Pharmacol. 2019; 85: 1841–1845. https://doi.org/10.1111/bcp.13959
13. Kelsie Watkins, O. Hayden Griffin & Elizabeth A. Gardner (2019) Investigation of black box drugs purchased from an online pharmacy, Journal of Substance Use, 24:4, 445-449, DOI: 10.1080/14659891.2019.1595197




Mae lle i bryderu y bydd y fferyllfeydd ar-lein hyn a'r gallu i'w defnyddio heb reolaeth yn arwain at gynnydd yn y defnydd o feddyginiaethau a ragnodwyd, yn y defnydd anfeddygol ohonynt ac at gynnydd mewn dibyniaeth[14].

Mae'r Asiantaeth Rheoleiddio Meddyginiaethau a Chynhyrchion Gofal Iechyd (MHRA) wedi cyhoeddi'r datganiad hwn:
***"Rydym yn annog cleifion i gael eu meddyginiaeth ar bresgripsiwn drwy fferyllfa gofrestredig neu wefan a gymeradwywyd gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol. Gellir wynebu risg i iechyd os prynir meddyginiaethau o unrhyw ffynhonnell arall, yn enwedig o wefan mewn gwlad dramor. Nid oes sicrwydd bod meddyginiaethau a brynir ar-lein yn cwrdd â'r safonau am ansawdd a diogelwch sy'n orfodol yn y DU."***

Os yw unigolion yn pryderu am gyfreithlondeb fferyllfa ar-lein, mae'r MHRA yn eu cymell i roi gwybod amdani yma:  https://medicine-seller-register.mhra.gov.uk/report/

14. Joanna Hockenhull, David M. Wood & Paul I. Dargan (2020) The Availability of Modafinil and Methylphenidate Purchased from the Internet in the United Kingdom Without a 14rescription, Substance Use & Misuse, 55:1, 56-65, DOI: 10.1080/10826084.2019.1654516